Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Iau, 10 Awst 2017 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Penodi Cadeirydd**

2. **Penodi Is-Gadeirydd**

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

4. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** y cysylltiad personol a ddatgenir ganddynt.

5. **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer y bwriad i benodi Prif Weithredwr Dros Dro** (Tudalennau 3 - 10)

6. **Materion Brys**

   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys.

7. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

8. **Cofnodion** (Tudalennau 11 - 17)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.

9. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   a) Diweddariad ar gamau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol (ar lafar)

   b) Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 18 - 20)

   c) Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd

   *(Cyflwynwyd yn unol â’r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**10. Derbyn y cyflwyniadau canlynol:**

a) ATAL (Uwcharolygydd Jane Banham a'r Rhingyll Neal Parkes)

b) Cadwyni Cyflenwi Cynaliadwy (Mr Stuart Davies)

**11. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

a) Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 21 - 36)

b) Diweddariad ar lafar ar y Gyllideb/ Proses Praesept (Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid)

**12. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal:**

a) Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 37 - 41)

b) Penodi Is-Bwyllgor Cwynion

**13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:**

Dydd Llun, 18 Medi 2017 am 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

**OFFICE OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

**10th August 2017**

**Appointment of Chief Executive**

**Report of Police and Crime Commissioner**

## 1. INTRODUCTION

**1.1** The purpose of this report is to notify the Police and Crime Panel ("the Panel") of the proposed appointment of an Acting Chief Executive for the Police and Crime Commissioner ("the Commissioner") in North Wales.

**1.2** I am therefore writing to request a meeting of the Police and Crime Panel to consider my nomination for the statutory post of Chief Executive for an initial period of 3 months.

## 2. BACKGROUND

**2.1** The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 ("the Act") requires the Panel to scrutinise senior appointments proposed by the Commissioner. Schedule 1, paragraph 9 (1) of the Act defines senior appointments as the Commissioner's Chief Executive, Chief Finance Officer and the Deputy Police and Crime Commissioner.

**2.2** The Act does not specifically refer to 'Acting' or 'Temporary' appointments, but in order for complete openness and transparency this request for a Confirmation Hearing is made.

**2.3** The Commissioner's current post holder, for the purposes of Paragraph 6(1)(a) of Schedule 1 to the PRSA, is currently unable to carry out the statutory duties for the Police and Crime Commissioner.

**2.4** In such circumstances, the Commissioner has an obligation under Paragraph 7(1) of Schedule 1 to the PRSRA to appoint a person to act as Chief Executive.

**2.5** The Commissioner must notify the Panel of the following information:

(1) The name of the person he is proposing to appoint;

(2) The criteria used to assess the suitability of the candidate for the appointment;

(3) Why the candidate satisfies those criteria; and

(4) The terms and conditions on which the candidate is to be appointed

**2.6** Schedule 1, paragraph 10 of the Act states that the Panel must review the proposed appointment and make a report to the Commissioner on the proposed appointment, including a recommendation to the Commissioner as to whether or not the candidate should be appointed. This must be done within a period of three weeks beginning with the day on which the Panel receives notification from the Commissioner of the proposed appointment.

**2.7** Schedule 1, paragraph 11 of the Act states that the Panel must hold a confirmation hearing before making a report and recommendation to the Commissioner in relation to the proposed appointment.

**2.8** Schedule 1, paragraph 12 gives the Commissioner the right to accept or reject the Panel's recommendation and must notify the Panel of his decision.

## 3. ISSUES FOR CONSIDERATION

### 3.1 The name of the person he is proposing to appoint;

3.1.1 The Commissioner is proposing to appoint Mrs Susan McTaggart MBE as Acting Chief Executive.

### 3.2 The criteria used to assess the suitability of the candidate for the appointment;

3.2.1 The criteria used to assess the suitability of the candidate are provided in the post profile set out in Appendix 1 and the process undertaken by the Human Resources Department, details in paragraph 3.5.6.

### 3.3 Why the candidate satisfies those criteria

Mrs McTaggart is currently the Head of Criminal Justice Reform and Support with Merseyside Police. In addition to her qualifications being suitable (and more than adequate), and her experience and areas of interest meeting the needs of the OPCC at the current time, she was able to demonstrate to the Commissioner during interview an understanding of the nuances of working in an OPCC (as opposed to the force) and she was able to express well what she can bring to the team during the current post holder's absence.

### 3.4 The terms and conditions on which the candidate is to be appointed

3.4.1 The Acting Chief Executive will be a member of staff of the Office of the Police and Crime Commissioner; this is a politically restricted post. The post will be on a temporary basis, initially for 3 months, attracting a salary of £75, 339 pro rata. The contract of appointment will be based on 22.12 hours per week although it is acknowledged that as a senior officer the post holder may have to exceed these hours for which no recompense is payable. The post is located at the commissioner's office, Police Headquarters, Colwyn Bay. Her terms of appointment are provided in the secondment agreement in place with Merseyside Police and the terms and conditions for all police staff in accordance with national police staff pay and conditions of service.

### 3.5 Current staffing arrangements

3.5.1 When the Commissioner was first advised that the current post holder, Mr Stephen Hughes, was unable to fulfil his duties, the Commissioner did not have a timescale for Mr Hughes' return to full duties.

3.5.2 It was therefore decided in consultation with all staff that temporary cover would be provided from within the Commissioner's current staff in post. This was also with the full support of Mr Hughes.

3.5.3 With the agreement of the Police and Crime Panel's Monitoring Officer, the Chief Finance Officer agreed to cover the post of Chief Executive on a short term basis by increasing her working week to 4 days.

3.5.4 It soon became clear that Mr Hughes would not be able to return to work on a fulltime basis for some considerable time. With this knowledge the Commissioner and his team did not think that they could fulfil the duties of the Chief Executive on a long-term basis, plans were therefore put in place to find a person suitable to fill the post on a temporary basis from outside the Commissioner's team.

3.5.5 Due to the time constraint to the fill the post, the Commissioner asked the Head of the Force's Human Resources Department to seek a person who could provide the temporary support he required.

3.5.6 **Process undertaken to recruit**

3.5.7 The process to recruit identified one person who had recently retired from a local authority monitoring officer role but was only available one day a week. The Commissioner considered that one day a week would not be sufficient to have an overall positive impact.

3.5.8 Two persons were identified who had recently applied for the job of Chief Executive at a neighbouring OPCC, and although not offered the position, were considered appointable.

3.5.9 One of the 2 candidates at the neighbouring OPCC was willing to commit to 2-3 days/week to the office (sufficient to have an overall positive impact). The informal interview with the Commissioner, Deputy Commissioner and Chief Finance Officer further identified that she has significant interest and experience with partnerships and commissioning, an area that, in the Chief Finance Officer's opinion, is not receiving sufficient attention at the current time.

3.5.10 Mrs McTaggart proposes to work 3 days/ week in North Wales, and while she intends to have the same regular days each week, she is able to be flexible about her working patterns to accommodate meeting requirements.

3.5.11 The Commissioner was extremely mindful to ease the pressure on the whole team by appointing a person quickly as opposed to going through an open recruitment process. A recruitment process would not be complete before the current post holder would start his phased return to work and would therefore be futile.

## 4. RECOMMENDATIONS

**4.1** The Panel are requested to consider the proposed appointment of Mrs McTaggart and to confirm her appointment.

| | |
|---|---|
| Appendix 1 | Post Profile, Person Specification and Terms and Conditions |

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# JOB DESCRIPTION

| | |
|---|---|
| **Job Title:** | **Chief Executive and Monitoring Officer** |
| **Responsible to:** | **Police and Crime Commissioner** |
| **Team:** | **Staff of the Office of the Police and Crime Commissioner – 9** |
| **Salary:** | **Point 71 - 74** |
| **Hours:** | **37 hours per week. Due to the nature of the role, the applicant will be required to be flexible in terms of the total number of hours worked each week and their availability. It is expected that a small proportion of duties will take place during evenings and weekends, for which no additional recompense is provided.** |
| **Location:** | **Office of the Police and Crime Commissioner, Police Headquarters, Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW** |

**Job Summary**

- To work with the Police and Crime Commissioner to enable delivery against vision, strategy and identified priorities
- To ensure effective operational and strategic leadership of the Office of the Police & Crime Commissioner through on-going management and engagement.
- To facilitate the accurate and appropriate scrutiny of the Police Force's activities

---

**Key Working Relationships**

- The Police & Crime Commissioner and Deputy Commissioner
- Chief Finance Officers
- All staff employed by the Police & Crime Commissioner
- The Police Force, in particular the Chief Constable and senior officers
- The Police and Crime Panel
- The communities of north Wales
- The wider policing network of Wales and the north west of England
- Relevant government institutions, associations and public sector strategic partners

**Key Functional, Management and Leadership Responsibilities.**

- To ensure provision of appropriate advice to the Commissioner
- To lead the continued development and delivery of the OPCC activities and operations.
- To provide clear and visible leadership to the staff of the OPCC including overall responsibility for their on-going development and training, and work directly to the PCC in relation to personal objectives and development.

- To ensure that the OPCC performs its duties and responsibilities for equalities and diversity according to relevant legislation, and to promote the commitment to equality and diversity in all that the OPCC does.
- In conjunction with the Chief Finance Officer, to ensure propriety in the conduct of the Commissioner's business including making proper arrangements for tendering procedures and the letting of contracts.
- To carry out the duties of Chief Executive appointed under Police Reform & Social Responsibility Act 2011 so as to enable and assist the OPCC to fulfil all its functions effectively and efficiently.
- To carry out the statutory duties and responsibilities of the Head of the Paid Service and the Monitoring Officer.

**Strategy and Resource Planning**

- To think strategically and guide the OPCC in developing a clear and effective long-term vision and strategy, together with appropriate policies.
- In conjunction with the chief finance officer(s) to lead the strategic development of the OPCC in the areas of strategic accounting, information management, the management of strategic risk, the human resource and learning and development strategies, ensuring that the OPCC is compliant with current employment legislation.
- To be the strategic lead in respect of partnership working.
- In conjunction with the chief finance officer(s), to oversee the financial planning, budgetary, resourcing and asset management aspects of the OPCC.
- To drive implementation of the OPCC corporate strategies, and of its day-to-day business, ensuring that effective governance arrangements are in place to enable the OPCC to monitor, review and improve its own performance.
- Support the OPCC in scrutinising Force performance, and supporting continuous improvement in the OPCC and in the Force.
- To prepare the OPCC for inspection by relevant audit bodies.
- In appropriate consultation with the elected Commissioner develop the short, medium and long term planning process for the future of the OPCC.

**Commissioning & Service Delivery**

- To ensure the effective and efficient engagement with both internal and external partners and stakeholders in relation to commissioning and service delivery at local, regional and national level.
- To be accountable for the performance of the OPCC in all aspects of commissioning.
- To ensure effective engagement with the Chief Constable and all relevant Force personnel in planning and managing the OPCC business.
- To ensure that the OPCC contributes to the national consideration of issues concerning policing and reducing crime. To represent the OPCC at high level meetings with the Home Office, Her Majesty's Inspector of Constabulary, Association of Police and Crime Commissioners, Local Government Association and other outside bodies at regional and national level.

## Engagement and Information

- To deliver, review and improve performance against the Information strategy in the areas of communication, consultation and engagement.
- To ensure that effective strategic needs assessments are undertaken which demonstrate the understanding of the communities served, enabling effective budget alignment and prioritisation.

- To distil and disseminate relevant information and advice to the OPCC enabling it to challenge where appropriate the Force's strategic and financial performance.
- To support the OPCC in raising its profile and communicating its values, strategies, achievements and views.
- To represent and promote the interests of the OPCC by developing and maintaining effective strategic partnerships with relevant public and private sector/voluntary organisations in the local community and at national and regional associations.
- To develop and implement effective two-way community engagement with all sections of the community.

**Scrutiny & Performance**

- Contribute to the efficient and effective delivery of the Police & Crime Plan, together with any associated delivery plans.
- Develop and maintain a constructive working relationship with the Police & Crime Panel for the area.
- Ensure the effective and efficient operation of both the internal and external audit functions and any other aspects of internal control or external inspection.
- To oversee and ensure the effective and efficient management of complaints.

## PERSON SPECIFICATION

**Education/Training**

- Degree and/or appropriate professional qualification or demonstration of the intellectual skills associated with education to this level
- Commitment to continuous personal development
- Desirable - MBA or other post-graduate management qualification
- Desirable – a legal qualification

**Skills/Competency/Knowledge**

- Ability to think independently and strategically, taking a long-term perspective
- Able to command respect of officers and colleagues at all levels, both internally and externally with partners and stakeholders
- Proven leadership, inspiration skills, vision and forward thinking
- Effective ambassadorial skills – the ability to represent the Commissioner with a wide range of stakeholders and sections of the community
- Ability to initiate and develop corporate strategies and translate into effective action
- Ability to appropriately delegate actions and responsibilities, whilst ensuring that outcomes and activities of the Commissioner are not compromised.
- Highly developed and proven political awareness and sensitivity, persuasiveness, negotiation, management and personal skills
- Articulate and an effective communicator to a variety of audiences – possessing a suitably dynamic personal style that enables engagement
- Understanding and appreciation of the challenges facing policing, including the political environment of north Wales, the Force and relevant stakeholders
- Ability to balance competing needs, analysing relevant information and developing strategies and plans that will deliver the Commissioner's vision
- High level of performance management skills
- High level of literacy, numeracy, analytical skills and creative approach to problem solving
- Ability to deal with complex issues quickly and constructively

- Ability to work under pressure
- An understanding of and respect for the democratic process and how non-executive bodies operate
- An ability in effective media handling ensuring public confidence
- To have advanced knowledge of Microsoft office applications and an understanding of the web including social media
- The ability to speak Welsh is a requirement of the post
- Must hold a full UK driving licence

**Experience/Track Record**

- Proven experience at a senior management level
- Proven track record of managing change successfully and delivering improved performance
- Ability to oversee and monitor effectively office timelines, especially those relating to handling complaints about the chief constable as and when they occur
- Ability to assume overall responsibility for the values of the office of the police and crime commissioner
- Ensuring that all business processes are up to date and fit for purpose, and that continuous improvement is embedded in the office approach
- Proactive commitment to fairness and diversity and to high standards of professional conduct
- Record of effective partnership working, influence and delivery
- Experience of financial management at a strategic level together with successful budgetary management
- Experience of and direct involvement in corporate level policy / strategy development
- Record of translating long-term strategic ambitions into action plans and effectively manage implementation of these plans, revising and changing as necessary
- Willing and able to work outside office hours when necessary
- Relish the challenge of change, development and improvement
- Has a robust yet diplomatic style, which is capable of building consensus and lasting relationships, bringing appropriate levels of gravitas to the appointment

**Key Behaviours**

The competencies to be measured are listed below.

**Leadership / Management**
A person who uses this competency effectively leads others by giving direction and focus and provides support and motivation to reach organisational goals.

**Strategic Perspective**
Looks at issues with a broad view to achieve the organisation's goals. Thinks ahead and prepares for the future through creating effective strategies. This person has “big picture” awareness to aid the implementation of projects.

**Decisiveness and Accountability**
Makes decisions promptly and courageously, stands by them, follows-up on progress, expects to be held accountable, and avoids unnecessary escalation.

**Communication**
Conveys messages to varied audiences clearly, concisely and in a logical manner.

**Negotiating and Influencing**

Influences, convinces or impresses others in a way that results in acceptance, agreement or behaviour change.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 13 Mawrth 2017, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., David Griffiths, Bernie McCann, Dilwyn Morgan, a Neville Phillips |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury, Matthew Forbes a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd), Ditectif Arolygydd Gary Kelly (Heddlu Gogledd Cymru), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) a Rhian Rees Roberts (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) |
| Yn absennol: | Y Cynghorwyr: William T Hughes |

## 63. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Glenys Diskin (Cyngor Sir y Fflint), Y Cynghorydd Gethin Williams (Cyngor Gwynedd), Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd) a Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd).

## 64. DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

## 65. MATERION BRYS

Dim.

## 66. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 23 a 31 Ionawr 2017 i'w cymeradwyo.

Cofnod 59 (31 Ionawr 2017) – fersiwn drafft Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: Estynnodd y Cynghorydd Brian Blakeley (Cyngor Sir

Ddinbych) ei ddiolch i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) am roi gwybodaeth bellach mewn perthynas â darpariaeth TCC yn Sir Ddinbych.

Mewn ymateb i'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, dosbarthodd y PCC yr wybodaeth a ganlyn hefyd:

- Yr ystadegau/ymatebion a ddefnyddiwyd i hysbysu Cynllun yr Heddlu a Throsedd
- Ystadegau arestiadau oherwydd yfed a chyffuriau hyd yma yn y flwyddyn rhwng 2016 a 2017

Cofnod 60 (31 Ionawr 2017) – Praesept a Threth y Cyngor 2017/18: Cadarnhaodd y Swyddog Cefnogi Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod llythyr yn cael ei ddrafftio i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â'r Ardoll Prentisiaeth; bydd copi o'r llythyr yn cael ei anfon at Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 23 a 31 Ionawr 2017.**

67. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Ar ran Panel yr Heddlu a Throsedd, cydymdeimlodd y Cadeirydd â Rhian Rees Roberts (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) gan iddi golli ei thad.

Croesawodd y Cadeirydd fyfyrwyr blwyddyn gyntaf y cwrs Gradd Sylfaen Plismona yng Ngholeg Llandrillo i'r cyfarfod.

68. **CYFLWYNIAD GAN Y DITECTIF AROLYGYDD GARY KELLY AR GAETHWASIAETH GYFOES**

Rhoddodd y Ditectif Arolygydd Gary Kelly gyflwyniad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar Gaethwasiaeth Gyfoes.

Rhoddwyd gwybod i'r PCP bod Deddf Caethwasiaeth Gyfoes 2015 yn diffinio Caethwasiaeth Gyfoes fel trosedd ddifrifol sy'n cynnwys: Ymelwa'n rhywiol; ymelwa llafur; llafur dan orfodaeth; ymelwa troseddol; gwasanaethu domestig; galluogi eraill i gaffael budd-dal; cynaeafu organau; ac ymelwa ar blant.

Roedd y cyflwyniad yn sôn am y meysydd canlynol:

- Roedd tair elfen gyfansoddol i drosedd caethwasiaeth gyfoes:
  - Gweithred: recriwtio, derbyn, cludo, trosglwyddo, a llochesu.
  - Dull: grym, twyll, gorfodaeth, cipio, cam-drin pŵer, cam-drin natur ddiamddiffyn, a thalu neu dderbyn budd-dal i berson sy'n rheoli rhywun arall.
  - Pwrpas: ymelwa
- Llywodraethu:
  - Lefel Genedlaethol: Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio Grŵp Bygythiad Strategol.

- Lefel Ranbarthol – Grŵp Bygythiad Cymru Gyfan; Grŵp Caethwasiaeth Gyfoes Gogledd Orllewin; a Phartneriaeth Gogledd Cymru.
- Cynllun Gweithredu Pedwar ‘P’
- Panel Craffu.
- Arolwg cyfoedion gan HMIC i ganfod bylchau wrth fynd i’r afael â Chaethwasiaeth Gyfoes.

- Mecanwaith a Chofnodi Troseddau:
  - Roedd y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn fframwaith ar gyfer adnabod dioddefwyr.
  - Mae gan bob awdurdod cyhoeddus ‘ddyletswydd i roi gwybod’ i’r Swyddfa Gartref am ddioddefwyr Caethwasiaeth Gyfoes.
  - Bydd Llwybrau Dioddefwyr ac Archwilio yn cael eu sefydlu pan fydd dioddefwr wedi’i ganfod (Protocol Palermo 2000 – Rhwystro, Atal a Chosbi Delio mewn Pobl).
  - Mae archwiliadau yn gymhleth iawn gan eu bod fel arfer yn cynnwys gwledydd eraill.
  - Roedd NRM yn caniatáu cyfnod adlewyrchu a gwella o o leiaf 45 diwrnod ar gyfer y dioddefwr.
- Asesiad Strategol / Bygythiad Presennol:
  - Dull asesu sy’n cael ei ddefnyddio i benderfynu ar Asesiad Strategol y Llu.
  - Roedd y bygythiad o Gaethwasiaeth Gyfoes yn ail yn unig i Drais Domestig.
  - Mae 7 o archwiliadau ar y gweill, gyda 2 grŵp trosedd cynlluniedig yn rhan o archwiliad ar hyn o bryd.
  - Roedd puteindai dros dro yn duedd gynyddol.
  - Diogelwyd 17 PVOT yn 2016.
- Rhwystrau i ddatgelu:
  - Diffyg ymwybyddiaeth eu bod yn ddioddefwr trosedd.
  - Rhwystr iaith.
- Heriau:
  - Technoleg – rhannu gwybodaeth yn wael rhwng Awdurdodau ac asiantaethau
  - Ymwybyddiaeth gymunedol.
  - Cyfrifoldeb cymdeithasol.
  - Blaenoriaethau wedi’u cysylltu gyda phartneriaid ac ymgysylltiad partneriaid.
  - Gofal dioddefwyr ac ôl-ofal yw’r heriau mwyaf, oherwydd bydd y dioddefwr yn ceisio tynnu eu hunain o ofal cyn gynted â phosibl. Mae hyn wedi’i adnabod fel risg sylweddol gan Heddlu Gogledd Cymru ac felly penodwyd Swyddog Cefnogi Dioddefwyr.

Diolchodd y PCP i’r Ditectif Arolygydd Kelly am y cyflwyniad llawn gwybodaeth ac aethant ymlaen i drafod y canlynol:

- Holodd y PCP sawl achos a archwiliwyd yn y 18 mis diwethaf.
  - Rhoddwyd gwybod i’r PCP bod 200+ o droseddau wedi’u cofnodi, gyda 7 archwiliad ar y gweill ar hyn o bryd, ac un achos yn cynnwys hyd at 70 o ddioddefwyr.
  - Ni fu unrhyw erlyniad eto.

- Un o’r heriau oedd gwella ymwybyddiaeth y gymuned a holodd y PCP sut all y cyhoedd roi gwybod am achos posibl o Gaethwasiaeth Gyfoes os nad oeddent yn gallu cael ateb ar y rhif 101.
  - Gall y cyhoedd roi gwybod am drosedd bosibl ar wefan Heddlu Gogledd Cymru, neu yn uniongyrchol i’r Uned Caethwasiaeth Gyfoes.
  - Pwysleisiodd y Ditectif Arolygydd Kelly bwysigrwydd gwybodaeth leol a’r angen i bartneriaid fuddsoddi mewn hyfforddiant i adnabod arwyddion o Gaethwasiaeth Gyfoes.
- Pwysigrwydd deall lefel y bygythiad a gweithio gyda phartneriaid, fel Awdurdodau Lleol ac Iechyd.
- Adnoddau priodol ar y ffiniau.

Diolchodd y Ditectif Arolygydd Kelly i’r PCP am y cyfle i roi’r cyflwyniad a gofynnodd i aelodau’r PCP roi adborth i’w cymunedau/Awdurdodau Lleol perthnasol i wella ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Gyfoes.

69. **GWEITHREDU’R ADOLYGIAD O BLISMONA YN Y GYMDOGAETH**

Cyflwynwyd papur briffio ar weithredu’r Adolygiad Plismona Cymunedol i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru adolygiad gyda’r nod o adolygu a gwneud y gorau o strwythur Plismona Cymdogaeth i ganiatáu canolbwyntio ar adnabod yn gynnar ac, mewn partneriaeth, rheoli rhagweithiol y problemau cysylltiedig â throsedd ac anrhefn a’r galw ehangach am wasanaethau plismona.

Gwnaed 19 o argymhellion a dechreuodd y cyfnod gweithredu ar 18 Ebrill 2016.

Rhoddodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (OPCC) wybod hefyd bod craffu ymgysylltiad lleol wedi’i gynnal gan yr OPCC. Roedd yr OPCC wedi creu sampl o dri o’r deg ardal plismona lleol ac roedd yn amlwg o’r canlyniadau fod gan bob ardal ymagwedd wahanol tuag at ymgysylltiad lleol ac ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned. Bwriadwyd cynnal adolygiadau craffu chwarterol a bydd adborth yn cael ei roi i’r PCP yn unol â hyn.

Croesawodd y PCP adolygiadau craffu ac awgrymwyd y dylid sefydlu proses sy’n gorfodi aelod o’r Tîm Cymdogaeth Ddiogelach / PCSO i gyfarfod Aelodau Etholedig / Cynghorau Cymuned yn rheolaidd.

Rhoddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd) wybod i’r PCP am y berthynas ardderchog oedd ganddo gyda’r Tîm Cymdogaeth yn y Bala, ac atgoffodd y PCP bod hon yn berthynas ddwy ffordd.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi’r wybodaeth.**



70. **CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ei Gynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.

Rhoddwyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) bod llawer o waith ac ymgynghori wedi'i gynnal gydag Awdurdodau Lleol, Partneriaid Statudol, y Trydydd Sector a'r gymuned fusnes. Hefyd, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ceisio barn ar flaenoriaethau trosedd a phlismona'r PCC.

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y PCP ar 31 Ionawr 2017, mae'r PCC wedi cynnwys 5ed blaenoriaeth yn ymwneud â Chyflawni Cymdogaethau Diogelach. Croesawodd y PCP yr ychwanegiad hwn a diolchodd i'r PCC am wrando ar y pryderon a fynegwyd.

Wrth ystyried y Cynllun Heddlu a Throsedd, trafododd y PCP y canlynol:

- Holodd y PCP pam nad oedd ystadegau trosedd yn rhan o'r Cynllun, fel y gellir monitro cynnydd.
  - Rhoddwyd gwybod i'r PCP y bydd y Cynllun yn dod gyda Chynllun Darparu'r Prif Gwnstabl, a fydd yn nodi'r camau gweithredu penodol i'w cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau a chynnwys data perfformiad.
- A oes lleihad yn nifer yr arestiadau oherwydd diffyg adnoddau a chau ystafelloedd y ddalfa.
  - Rhoddodd y PCC wybod bod y Ddeddfwriaeth Mechnïaeth newydd yn debygol o gael effaith ar nifer yr arestiadau; nodwyd y bu cynnydd mewn presenoldeb gwirfoddol mewn Gorsafoedd Heddlu.
  - Mewn perthynas â chau ystafelloedd dalfa, rhoddwyd gwybod i'r PCP mai'r prif reswm dros eu cau oedd materion iechyd a diogelwch. Mae'r arbedion a wnaed yn dilyn eu cau yn cael eu hail-fuddsoddi mewn staff rheng flaen.

Croesawodd y PCP y Cynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig ar gyfer Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD-**

**Yn unol â dyletswydd statudol y PCP dan Adran 28(3)(a) a (b) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, bod y PCP yn cefnogi'r PCC wrth gyflwyno Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unol ag Adran 5(1) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.**

71. **DIWEDDARIAD GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) ar gyfer y cyfnod rhwng 17 Rhagfyr 2016 a 20 Chwefror 2017.

Mewn perthynas â Grantiau Diogelwch Cymunedol, er y cynigiwyd comisiynu gwasanaethau yn uniongyrchol, gan nad oedd y PCC yn ffafrio rhoi cyllid i gorff cyhoeddus arall i gomisiynu gwasanaethau, roedd y PCC wedi cytuno ohirio'r newidiadau hyn am chwe mis. Byddai hyn yn galluogi sefydliadau partneriaeth i gynnal asesiadau a chanfod y ffordd orau o gyfrannu at y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP).

Cyfeiriwyd hefyd at y cynnydd yn nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac a yw'r lleihad mewn gweithwyr CSP wedi cael effaith ar y ffigurau. Byddai'r PCC yn edrych ar y ffigurau ac yn rhoi gwybod i'r PCP, ond os yw'r Awdurdodau Lleol yn rhoi gwerth ar y swyddi hyn, yna dylid disgwyl iddynt gyfrannu at y CSPs yn unol â hyn.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y materion a ganlyn:

- Ymgysylltu â Swyddogion Heddlu ac ymweld â Gorsafoedd Heddlu:
  - Er nad oedd diweddariad y PCC yn cyfeirio at y cysylltiad penodol hwn â Swyddogion Heddlu, mae'r math hwn o ymgysylltiad yn parhau ac mae'r PCC yn ymweld yn rheolaidd â Gorsafoedd Heddlu.
  - Roedd y cyfarfodydd y cyfeiriwyd atynt yn niweddariad y PCC yn gyfarfodydd a drefnwyd, sy'n ychwanegol at y cyfarfodydd dyddiol gyda'r Heddlu, Staff, Ffederasiwn yr Heddlu, ayyb.
- Cyfeiriwyd at y penderfyniad i benodi ymgynghorydd i ddatblygu Polisi Gwerth Cymdeithasol.
  - Rhoddodd y PCC wybod i'r PCP ei fod wedi cyflogi arbenigwr sydd â phrofiad o gaffael ac mae wedi cynnal gwaith gwerth cymdeithasol gyda chyrff eraill. Yn anffodus, nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd y capasiti i wneud y gwaith hwn. Bydd y Prif Weithredwr (OPCC) yn cyfarfod gyda'r ymgynghorydd yn fuan i drafod pa waith oedd ei angen a'r graddfeydd amser bras; bydd y Prif Weithredwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r PCP yn unol â hyn.
- Merched yn y Ddalfa:
  - Rhoddodd y PCC wybod bod Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchar wedi cyhoeddi adroddiad sy'n edrych ar yr effeithiau ar blant pan mae eu mamau wedi'u carcharu.
  - Awgrymwyd y dylid ceisio arweiniad gan gynrychiolwyr addysgol pan mae mamau wedi'u carcharu, fel y gellir adnabod pryderon a phroblemau yn gynharach.
- Ymddygiad Rhywiol Niweidiol mewn plant:
  - Rhoddodd y PCC wybod hefyd bod Emma Rathbone (Cyfiawnder Ieuenctid) wedi ysgrifennu adroddiad ar beryglon ymddygiad rhywiol niweidiol mewn plant, sydd wedi'i gyfeirio at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru i'w adolygu.

Hefyd, dosbarthodd y PCC nodyn briffio oedd yn rhoi gwybod i'r PCP y bydd yn rhan o raglen y BBC, Week in Week Out - Cop-out on Drugs, ddydd Mawrth 14 Mawrth 2017.

Rhoddwyd gwybod i'r PCP hefyd, yn dilyn erthygl yn y wasg a oedd yn dangos nodwyddau a phetheuach cyffuriau yng Ngorsaf Fysiau Wrecsam,

ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd (Vaughan Gethin AC) gan amlinellu ei bryder na all Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdodau Lleol fynd i'r afael â'r broblem hon ar eu pen eu hunain, gan ei fod yn fater iechyd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

**(b) Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn adolygu'r ystadegau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol fel yr amlygwyd uchod.**

**(c) Bod y Prif Weithredwr (OPCC) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun gwaith arfaethedig a'r graddfeydd amser bras ar gyfer yr ymgynghorydd fydd yn gwneud gwaith gwerth cymdeithasol.**

72. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2016/17 (FEL YR OEDD HI AR 31 RHAGFYR 2016)**

Cyflwynwyd diweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyllideb 2016/17, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2016.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith y rhagwelwyd y byddai gwariant yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb, fodd bynnag, o fewn hyn roedd nifer o achosion rhagamcanedig o orwariant thanwariant.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r adroddiad.**

73. **AMSERLEN GYFARFOD ARFAETHEDIG AR GYFER 2017/18**

Cyflwynwyd amserlen y cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer 2017/18 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cytunodd y PCP nad oedd angen cyfarfod ar 13 Tachwedd 2017.

**PENDERFYNWYD-**

**Cytuno ar y rhestr arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:**

- **Dydd Llun, 26 Mehefin 2017 am 2.00 pm (*Nodyn: ar ôl y cyfarfod, symudwyd y dyddiad hwn i ddydd Mawrth, 20 Mehefin 2017 am 10.00 am)***
- **Dydd Llun, 25 Medi 2017 am 2.00 pm (Nodyn: ar ôl y cyfarfod, symudwyd y dyddiad hwn i ddydd Llun, 18 Medi 2017 am 2.00 pm)**
- **Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2017 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 22 Ionawr 2018 am 2.00pm**
- **Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2018 am 2.00pm (os bydd pleidlais atal y praesept)**
- **Dydd Llun 19 Mawrth 2018 am 2.00pm**

| | |
|---|---|
| | **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**<br><br>**10 Awst 2017**<br><br>**COFNOD PENDERFYNIADAU**<br><br>**Adroddiad y Prif Weithredwr** |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ("y Comisiynydd") yn gyfrifol am wneud nifer o benderfyniadau drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhain gynnwys penderfyniadau ynghylch materion fel y gyllideb a'r praesept, penodiadau a blaenoriaethau.

**2. SUT Y GWNEIR PENDERFYNIADAU**

2.1 Y Polisi Gwneud Penderfyniadau sy'n nodi'r broses y bydd Comisiynydd Gogledd Cymru yn ei dilyn wrth wneud penderfyniadau. Mae'n darparu'r paramedrau, yr ymdriniaeth a'r egwyddorion ac yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi'r penderfyniadau a wneir.

2.2 Bydd penderfyniadau'r Comisiynydd yn ymwneud yn bennaf â chyflawni ei swyddogaethau statudol; yn ogystal, mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol sy'n deillio o arfer y swyddogaethau statudol hynny, boed wedi'u gwneud gan y Comisiynydd yn breifat neu o ganlyniad i gyfarfod o natur gyhoeddus neu breifat.

2.3 Mae'r gofynion statudol yng Ngorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011 ar gyfer cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol i benderfyniadau a wneir yn nodi elfennau penodol er budd tryloywder ac i sicrhau unplygrwydd y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau. Bydd penderfyniadau a wneir yr ystyrir eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael eu cyflwyno er sylw'r Panel yn yr adroddiad hwn.

**3. CRAFFU AR BENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD**

3.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio'r Comisiynydd a chraffu ar benderfyniadau a wneir ganddo.

3.2 Fy mwriad yw cyflwyno i'r Panel grynodeb o'r holl benderfyniadau a wnaed gennyf ynghyd a chrynodeb o'r rhesymau pam y gwnes y penderfyniadau hynny. Hyderaf y bydd hyn o gymorth i'r Panel gyflawni ei ddyletswydd o graffu ar fy mhenderfyniadau.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Bod y Panel yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**5. COFNOD PENDERFYNIADAU**

5.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed rhwng 24 Chwefror 2017 a 20 Ebrill 2017.

| Dyddiad | Teitl a dolenni i'r penderfyniad llawn | Crynodeb |
|---|---|---|
| 08.03.17 | CYDA | I barhau â'n haelodaeth o'r Gymdeithas Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol (CYDA) am flwyddyn arall. Sefydliad a ariennir gan y Swyddfa Gartref yw'r CYDA a sefydlwyd i hyrwyddo a chefnogi'r ddarpariaeth effeithiol o ymweliadau â dalfeydd yn genedlaethol. |
| 18.03.17 | Cynghrair Ymweliadau Lles Cŵn yr Heddlu | Cafodd unedau cŵn Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Swydd Gaer eu cyfuno ym mis Ebrill 2016. Roedd swyddfeydd y ddau Gomisiynydd yn teimlo y byddai'n ddoeth i Heddlu Gogledd Cymru ymuno yn y cynllun yr oedd Heddlu Swydd Gaer eisoes wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau lles cŵn yr heddlu |
| 28.03.17 | Diwygiad i'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol | Roedd gofyn am ddiwygiad i'r cynllun YDA er mwyn ystyried hyd penodiadau ymwelwyr dalfeydd, cau Dalfa Dolgellau a mynediad at garcharorion sy'n cael eu dal heb fod mewn cysylltiad ag unrhyw un. |
| 04.04.17 | Grant Trosedd ac Anhrefn | Parhau i ddarparu cyllid ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid, y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. |
| 04.04.17 | Y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr Trais a Chamdrinaieth Rywiol (RASAC) | Darparu arian ychwanegol er mwyn lleihau'r rhestr aros gynyddol am wasanaethau cwnsela ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth rywiol. |
| 04.04.17 | Gwefan | Ymestyn y contract â'n darparwyr gwefan, Zengetti, am gyfnod pellach o 12 mis |
| 04.04.17 | Canolfan Trin Dibyniaeth ar Alcohol | Darparu arian ar gyfer y Ganolfan Trin Dibyniaeth ar Alcohol a Lles yn Wrecsam |
| 04.04.17 | Gweithiwr Achos Caethwasiaeth Modern – Cymorth i Ddioddefwyr | Darparu arian o'r Grant Gwasanaethau Dioddefwyr ar gyfer penodi Gweithiwr Achos Caethwasiaeth Modern i weithio yn y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr yn Llanelwy. |
| 11.04.17 | Grant Dioddefwyr | Dosbarthu arian o Grant Gwasanaethau Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer 2017/18. |

| | | |
|---|---|---|
| 11.04.17 | Prosiect Atal Digartrefedd Wrecsam | Darparu cyllid ar gyfer y Prosiect Atal Digartrefedd sydd wedi'i sefydlu yng nghyffiniau Wrecsam. Partneriaeth weithredol rhwng CAIS a Shelter Cymru yw hon. |
| 11.04.17 | Plant yr effeithir arnynt gan garchariad rhiant | Gwneud cyfraniad ariannol er mwyn cefnogi plant a theuluoedd y mae carchariad rhiant/perthynas wedi effeithio arnynt. |
| 20.04.17 | Prosiect *Pathfinder* i ferched | Darparu cyfraniad ariannol i gefnogi'r Prosiect *Pathfinder*. Parhad yw'r prosiect hwn o'r prosiect gwreiddiol a ariannwyd yn flaenorol drwy'r gronfa drawsnewid. |

5.2 Os bydd angen, mae gwybodaeth ychwanegol i'w gweld ar wefan y Comisiynydd (Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau).

**6. PAPURAU CEFNDIR**

6.1 Polisi Gwneud Penderfyniadau, SCHTh Gogledd Cymru

6.2 Gorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011

**Awdur yr Adroddiad**

M Jones, Swyddog Gweithredol, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

**Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
**10 Awst 2017**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

**Cyflwyniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod o ganol Chwefror 2017 tan 1 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad yn delio gyda pherfformiad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd 2016/17. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Panel ym mis Medi mewn perthynas â pherfformiad yn ystod chwarter cyntaf y Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021 newydd (a gyhoeddwyd yn Ebrill 2017).

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer Gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13(1) o'r Ddeddf, mae'n rhoi'r wybodaeth mae'r Panel ei hangen gan y Comisiynydd i ymgymryd â'i swyddogaethau (y gofynion penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Bydd aelodau'r Panel yn ymwybodol yn 2016/17 fy mod wedi craffu ar yr Heddlu trwy fesur ei berfformiad yn erbyn pedwar amcan Cynllun Heddlu a Throsedd 2016/17 a'r mesurau a nodir yn y Cynllun. Y prif gyfrwng yr wyf yn cyflawni'r swyddogaeth honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno.

**Amcan 1 yr Heddlu a Throsedd: Gweithio mewn partneriaethau effeithiol**

*I ddwyn yr heddlu i gyfrif, bum yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*

- Lefel aildroseddu, gan gynnwys aildroseddwyr risg uchel o drais domestig;
- Gweithredu'r cynllun rhanbarthol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant;
- Gweithredu'r Concordat Gofal Mewn Argyfwng Iechyd Meddwl Cymru gyfan;
- Datblygu a gweithredu Cynllun Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i gefnogi'r cynllun hwn.

Dros y 12 mis diwethaf, roedd y lefel aildroseddu (gan gynnwys aildroseddwyr trais domestig risg uchel) yn 175, o'i gymharu ag 161 yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

Rydym wedi gweld datblygiad prosiect partneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru, Cymdeithas Milfeddygol Prydeinig Gogledd Cymru a'r Fenter Hyfforddi Milfeddygon The Links. Mae Arweinydd Strategol Cam-drin Domestig Heddlu Gogledd Cymru wedi cyfarfod gyda Dr Freda Scott-Park (Sefydliad Lles Anifeiliaid, Menter Hyfforddi Milfeddygon The Links) a Peter Harlech Jones, Uwch Siryf Gwynedd ac ef ei hun yn filfeddyg ac yn aelod amlwg o'r Gymdeithas Milfeddygol Prydeinig yng Ngogledd Cymru, i drafod y fenter hon. Mae Dr Scott-Park wedi gweithio gyda'r heddlu yn Essex, Northumbria a'r Alban ac wedi cynorthwyo i weithredu'r fenter yn ardaloedd y lluoedd hynny. Mae'r fenter yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhlith milfeddygon o gam-drin domestig a'u hannog i atgyfeirio unrhyw bryderon am gleifion maent yn amau sy'n dioddef cam-drin domestig. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, maent wedi cytuno y gallant weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu'r llwybr hwn i filfeddygon gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig. Mae gwaith yn datblygu mewn partneriaeth gyda nhw a'r Prosiect LINKS, i gyflwyno pecyn hyfforddi ar y cyd i filfeddygon ar draws Gogledd Cymru drwy'r gangen leol o'r BVA ddydd Iau, 5 Hydref 2017. Mae Ymgynghorydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Rhian Bowen Davies hefyd yn cymryd rhan yn y fenter hon ac yn derbyn cefnogaeth ac yn cael ei dilyn gan AC Lesley Griffiths a Carl Sargeant, dau Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru.

Mae datblygiad Protocol Cydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu'r RAF yn RAF y Fali ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig sy'n cynnwys personél y gwasanaeth, neu sy'n digwydd ar y safle nawr yn cael ei ddatblygu drwy'r RAF, ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn gobeithio cael diweddariad a thrafodaeth gyda nhw yn y dyfodol agos.

Mae protocol Cyd Adran 135 ac 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl nawr wedi'i gyflwyno i Benaethiaid Gwasanaeth Oedolion Gogledd Cymru. Yn dilyn hyn, mae pedwar o'r chwe awdurdod lleol wedi arwyddo'r protocol. Mae un o'r ddau arall wedi gofyn am fân newidiadau, sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd hwn yn cael ei gymeradwyo'n llawn yn y dyfodol agos.

Bydd y Ddeddf Heddlu a Throsedd 2017 yn golygu newidiadau sylweddol i brotocolau gwaith, gan gynnwys protocolau Iechyd Meddwl o safbwynt gweithredol. Roedd disgwyl i'r newidiadau ddod i rym o 1 Mai 2017. Fodd bynnag, gyda chyhoeddiad yr etholiad cyffredinol rhagwelir y bydd nawr yn dod i rym ym Medi 2017 ar y cynharaf. I grynhoi, y newidiadau mwyaf sylweddol a gyflwynwyd gan y Ddeddf o ran Iechyd Meddwl yw:

- Y gostyngiad o'r trothwy 72 awr i 24 mewn perthynas â chwblhau proses asesu Adran 136.

- Bydd y Ddeddf hefyd yn dod â'r defnydd o Ddalfa'r Heddlu fel lle diogel i blant a phobl ifanc i ben.

- Gellir ond defnyddio dalfa'r heddlu ar gyfer pobl dros 18 oed o dan amgylchiadau penodol – parheir i aros am eglurhad terfynol o'r amgylchiadau penodol hyn.

- Mae'n rhaid i swyddogion yr heddlu, lle bo hynny'n ymarferol ymgynghori â Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl cyn cadw unigolyn o dan Adran 136.

Mae Uned Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn Heddlu Gogledd Cymru yn gweithredu'r newidiadau ac mae cyd gynllun gweithredu wedi'i ddatblygu gan Heddlu Gogledd Cymru a BIPBC.

Mae'r uchod yn ychydig o enghreifftiau o sut mae'r OPCC a Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru i sicrhau Gogledd Cymru mwy diogel.

**Amcan 2 yr Heddlu a Throsedd: Atal Trosedd**


*I ddwyn yr heddlu i gyfrif o ran yr amcan hwn, bûm yn monitro dros gyfnod y Cynllun:*

Lefel cyfanswm y troseddau a gofnodwyd
Lefel y troseddau sy'n seiliedig ar y dioddefwr
Lefel y troseddau a ddatrysir, yn ôl math
Lefel yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd
Lefel byrgleriaeth ddomestig
Nifer y Swyddogion Heddlu Arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid


Nid oedd y mesurau hyn yn dargedau perfformiad. Eu pwrpas oedd i fy nghynorthwyo i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Ar ddiwedd blwyddyn blismona 2016/17 roedd cyfanswm y trosedd a gofnodwyd yn 40,822 o'i gymharu â 38,636 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn gynnydd o 5.7%. Roedd lefel y trosedd ar sail dioddefwr i fyny 6.5%.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y Prif Gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a gofnodwyd a throseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodir bob 3 mis ers mis Ebrill 2010.




Ffigwr 2.1 Holl drosedd a gofnodwyd yn fisol hyd at Mawrth 2017 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 2: Trosedd yn seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Mawrth 2017 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Yn ystod cyfarfod Bwrdd Gweithredol Strategol ar 23 Mai 2017 cefais fy hysbysu gan y prif swyddogion fod yr Heddlu wedi profi galw sylweddol gan rai troseddau proffil uchel ers y cyfnod adrodd diwethaf, sydd wedi profi gwydnwch ond hefyd wedi nodi gwaith heddlu a chefnogaeth ardderchog gan y gymuned leol. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys llofruddiaeth diweddar Nicholas Churton a'r chwilio am y drwgdybiwr (a oedd yn cynnwys adnoddau o bob ardal plismona ar draws yr Heddlu), ymchwiliad yn ymwneud â 5 unigolyn o ardal y Rhyl am fyrgleriaeth a throseddau cysylltiedig â thrais a llofruddiaeth Amarjeet Singh-Bhakar yn ardal Sir Ddinbych (cafodd 10 eu harestio gan yr heddlu a arweiniodd at 2 o bobl yn cael eu cyhuddo o lofruddiaeth, 1 wedi'i gyhuddo o anafu a 5 o bobl wedi eu cyhuddo o anhrefn treseddol. Ynghyd â'r ymchwiliadau trosedd sylweddol hyn, cynhaliwyd gweithred Caethwasiaeth Modern yn ardal Sir y Fflint o'r Heddlu yn Ebrill.

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2016 gwelodd Heddlu Gogledd Cymru gynnydd cyffredinol o 7% ym mhob trosedd ac eithrio twyll, ac mae'n gyd 8fed ynghyd â Heddlu

Gwent yng Nghymru a Lloegr (allan o 43 o luoedd yr heddlu) o ran y cynnydd hwn. Hwn oedd y cyd-gynnydd isaf yng Nghymru.

Isod mae'r tabl ar gyfer y 43 heddlu a'u safle o ran holl drosedd ac eithrio twyll. Mae lluoedd mwyaf tebyg Gogledd Cymru wedi eu hamlygu mewn Pinc.

| | Heddlu | % cynnydd |
|---|---|---|
| 1 | Cymbria | 0 |
| 1 | Swydd Gaerloyw | 0 |
| 2 | Gogledd Swydd Efrog | 1 |
| 2 | Swydd Derby | 1 |
| 2 | Suffolk | 1 |
| 3 | Norfolk | 2 |
| 4 | Swydd Lincoln | 3 |
| 5 | Dinas Llundain | 4 |
| 5 | MET | 4 |
| 6 | Sir Myrswy | 5 |
| 6 | Swydd Nottingham | 5 |
| 7 | Swydd Bedford | 6 |
| 7 | Surrey | 6 |
| 7 | Tafwys | 6 |
| 7 | Dyfnaint a Chernyw | 6 |
| 8 | Gwent | 7 |
| 8 | Gogledd Cymru | 7 |
| 9 | Cleveland | 8 |
| 9 | Dyfed Powys | 8 |
| 9 | De Cymru | 8 |
| 10 | Humberside | 9 |
| 10 | Essex | 9 |
| 10 | Hampshire | 9 |
| 10 | Sussex | 9 |
| 11 | Sir Gaerhirfryn | 10 |
| 11 | Swydd Gaerlŷr | 10 |
| 11 | Gorllewin Canolbarth Lloegr | 10 |
| 11 | Dorset | 10 |
| 12 | GMP | 11 |
| 12 | Northamptonshire | 11 |
| 12 | Wiltshire | 11 |
| 13 | Gorllewin Mersia | 12 |
| 14 | De Swydd Efrog | 13 |
| 14 | Swydd Gaergrawnt | 13 |
| 14 | Caint | 13 |
| 15 | Swydd Gaer | 14 |
| 15 | Swydd Stafford | 14 |
| 16 | Swydd Warwig | 15 |
| 16 | Hertfordshire | 15 |
| 17 | Gorllewin Swydd Efrog | 19 |

| | | |
|---|---|---|
| 18 | **Avon a Gwlad yr Haf** | 20 |
| 19 | **Durham** | 28 |
| 20 | **Northumbria** | 38 |


Mae'r Heddlu'n parhau i weithio gyda Chanolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru a'r Rheolwr Trosedd Casineb yng Ngogledd Cymru. Mae cyfarfod misol wedi'i drefnu i archwilio achosion anodd i sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn gofal a chefnogaeth briodol. Mae'r cyfarfod hwn yn galluogi'r Heddlu i sicrhau bod unrhyw gyfleoedd adfer gwasanaeth yn cael eu cymryd os yw'r dioddefwr yn anhapus gyda gwasanaeth yr Heddlu. Mae'r cyfarfod hefyd yn caniatáu i alw cynhadledd achos Trosedd Casineb os yw'r dioddefwr angen gwasanaethau gan gorff cyhoeddus arall.

Mae Swyddogion Amrywiaeth yr Heddlu wedi cynhyrchu Polisi Mosg mewn ymgynghoriad â phrif fudd-ddeiliaid yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol. Cymeradwy-wyd y Polisi yn rhanbarthol i fynd i'r afael â thensiynau lleol/cenedlaethol ac mae'n cynnig sail i gefnogi Cymuned Islamaidd Gogledd Cymru i roi gwybod am drosedd casineb yn unol â chanllawiau lleol a chenedlaethol.

Mae Swyddogion Amrywiaeth yr Heddlu hefyd wedi bod yn mynychu cyfarfodydd ardal gwasgaru ceiswyr lloches gydag arweinwyr awdurdod lleol ac asiantaethau partneriaeth i sicrhau cydlyniant cymunedol a bod trosedd casineb yn cael ei ystyried yng nghynlluniau awdurdodau yn lleol.

Roedd yr Uned Amrywiaeth yn cymryd rhan ynghyd â phartneriaid yn y digwyddiad 'teithio ymlaen' yn Sir y Fflint. Mae'r digwyddiad hwn yn anelu i ryngweithio gyda phobl ifanc o'r gymuned Sipsiwn/Teithwyr. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymwybyddiaeth a rhoi gwybod am drosedd casineb.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**




Ffigwr: Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Mawrth 2017 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi gweld cynnydd cyffredinol o 9.2% o'i gymharu â'r llynedd. Yn 2016/17 roedd yna 23,142 digwyddiad o'i gymharu â 21,188 y llynedd.

Mae arolygon boddhad diweddar yn nodi bod 82.1% o ddioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn fodlon gyda'r 'holl brofiad' gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Yn ystod cyfarfod diwethaf Panel yr Heddlu a Throsedd gofynnwyd i mi adolygu'r cynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Ar ôl adolygu'r ffigurau hyn rwy'n dod i'r casgliad canlynol:

Cyfanswm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, sy'n cynnwys y tri chategori amgylcheddol, niwsans a phersonol yn gweld newid cadarnhaol sylweddol ystadegol yn wythnos 32 o gymedr o 484 i lawr i'r lefel bresennol o 368. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o tua 24% sydd nawr yn dod â'r gymedr a gofnodwyd i'r lefelau a gofnodwyd yn 2015/16. Mae wyth o'r deg ardal yn ymddangos yn dilyn ac yn

cyfrannu at yr un duedd, a ailadroddir yn gyffredinol ym mhob Ardal. Y categori cofnodi uchaf yw Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Niwsans.

Wrth i'r cynnydd cychwynnol gael ei nodi yn wythnos 1, yna mae'r newid mewn cofnodi trosedd ychydig wythnosau ynghynt yn ymddangos fel yr eglurhad mwyaf tebygol ar gyfer y cynnydd hwn.

Felly, gellir tybio bod y gostyngiadau o wythnos 32 ymlaen yn cynnwys gostyngiadau gwirioneddol yn erbyn lefelau newid cyn cofnodi trosedd 2015/2016.

Mae gan bob un o dair ardal yr heddlu (Ynys Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych a Sir y Fflint/Wrecsam) grŵp tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol partneriaeth amlasiantaeth sy'n goruchwylio'r ymatebion i faterion a thueddiadau a amlygwyd yn lleol. Mae grwpiau cyflenwi yn dod o dan bob grŵp tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan ddarparu gofynion lefel weithredol. Fodd bynnag, mae'r rhain yn y broses o gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd.

**Nifer y swyddogion heddlu arbennig, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithredol:**

Mae'r nifer o swyddogion heddlu arbennig wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf i'r panel, er gwaethaf nifer sylweddol o swyddogion heddlu arbennig yn llwyddiannus yn eu cais i ymuno â Heddlu Gogledd Cymru fel heddweision cyflogedig. Roedd 18 o fyfyrwyr swyddogion heddlu arbennig yn ymuno â'r heddlu yn wythnos gyntaf mis Ionawr ac 8 arall yn cael eu derbyn, pob un yn fyfyrwyr blwyddyn gyntaf cwrs Sylfaen mewn Plismona yng Ngholeg Llandrillo, a ymunodd ar 17 Chwefror.

Mae'r oriau wedi parhau i gynyddu hefyd gyda 48,480 awr wedi eu cyfrannu yn y flwyddyn ariannol 2016/17 o'i gymharu â chyfanswm o 41,008 awr ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol i gyd.

Ar 30 Ionawr, ymunodd 8 Swyddog Heddlu Arbennig sy'n fyfyrwyr ail flwyddyn yn Llandrillo â Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer cyfnod datblygu 10 wythnos. Yn ystod y 10 wythnos hyn roeddent yn gweithio fel heddweision llawn amser, yn gweithio sifftiau llawn amser ar draws ystod o ddyletswyddau.

Mae Uned Diogelwch ar y Ffyrdd Heddlu Gwirfoddol yn mynd o nerth i nerth ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ymgyrch Gyrru ac Yfed y Nadolig.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd recriwtio rheolaidd o fewn yr heddlu yn anochel yn ei gwneud yn fwy heriol i gyrraedd y nifer a ddyheuir o 300 o swyddogion heddlu gwirfoddol. Yn dilyn trafodaethau daethpwyd i'r casgliad hyd yn oed os bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i recriwtio Swyddogion Heddlu Arbennig ar raddfa o 90% y flwyddyn, sef y targed, ni fydd yn cyflawni 300 erbyn Ebrill 2018 ac mae amserlenni yn y cyswllt hwnnw wedi eu hadolygu. Mae Heddlu Gogledd Cymru nawr yn hytrach yn anelu i gyrraedd 300 erbyn Ebrill 2019.

Mae'r nifer o wirfoddolwyr wedi parhau'n gymharol sefydlog yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ond mae'r oriau gwaith yn parhau i gynyddu.

**Amcan 3 yr Heddlu a Throsedd: Darparu ymateb effeithiol**

Y pedwar mesur o'r amcan hwn fel y nodir yng Nghynllun 2016/17 oedd:

- Amseroedd ymateb cyfartalog presenoldeb mewn argyfyngau heddlu
- Galwadau nad ydynt yn argyfwng yn cael eu dosbarthu fel 'galwadau wedi'u gadael'
- Y targed arbedion ar gyfer 2016/17 yn cael ei gyflawni
- Yr adborth a dderbyniwyd drwy arolygon dioddefwyr, yn enwedig lefelau boddhad

Mae'r amser ymateb ar gyfartaledd yn parhau'n sefydlog sef 18.8 munud.

Hysbyswyd y Panel yn ei gyfarfod ym mis Mawrth bod y protocol THRIVE (bygwth, niwed, risg, ymchwilio, bregusrwydd ac ymgysylltu) wedi'i gyflwyno'n ddiweddar ar gyfer pob galwad yn yr ystafell reoli. Mae dilyn y protocol THRIVE yn galluogi Heddlu Gogledd Cymru i asesu bregusrwydd ar y pwynt cyswllt cyntaf a dyrannu adnoddau yn unol â hynny.

Mae'r raddfa gadael ar gyfer galwadau difrys wedi gostwng er gwaethaf cyflwyno THRIVE ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflawni ei darged o 5%.

Mae THRIVE yn gallu ac wedi cynyddu rhai amseroedd galwadau, fodd bynnag mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynnwys y strwythur THRIVE yn llawn ac yn gweithio'n briodol mewn gwirionedd wedi lleihau amseroedd galwadau yn gyffredinol sy'n ein galluogi i ateb mwy o alwadau.

Er ein bod wedi gweld cynnydd o 2,227 o alwadau 999 yn 2016/17 (o'i gymharu â 2015/16), mae Heddlu Gogledd Cymru fodd bynnag yn dal wedi rhagori ar ei darged o ateb galwadau 999 o fewn 10 eiliad, gyda 91.3% yn cael eu hateb o fewn yr amser hwnnw.

O ran digwyddiadau uniongyrchol, roedd 29,798 wedi eu graddio'n uniongyrchol yn ystod y flwyddyn ariannol ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi rhagori ar y targed cenedlaethol o fynychu 93.7% o ddigwyddiadau uniongyrchol o fewn 20 munud.

**Amcan 4 yr Heddlu a Throsedd: Lleihau niwed a'r risg o niwed**

*Mae gan y Cynllun 2016/17 bedwar mesur ar gyfer penderfynu pa mor effeithiol yw perfformiad yr Heddlu o ran yr amcan hwn. Maent yn cynnwys:*

• Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd
• Nifer y cyflawnwyr sy'n cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a arestiwyd
Nifer yr achosion o bobl sydd â delweddau anweddus o blant a erlynwyd
• Nifer y troseddau casineb yr adroddir amdanynt

Mae gwrthdrawiadau traffig ffyrdd lle mae unigolyn wedi'i ladd neu ei anafu'n ddifrifol wedi gostwng 14.4% i lawr o 347 i 297.

Lansiwyd Operation Darwen yn Fferm Rhug, Corwen ar 27 Mawrth 2017 gyda chefnogaeth Ken Skates AC, Ysgrifennydd Cabinet yr Economi a Seilwaith ac maen rhan o raglen barhaus i wella diogelwch ffordd i bawb drwy ymgysylltu, addysg a gorfodi lle bo'r angen. Drwy gydol yr ymgyrch bydd cynrychiolwyr BikeSafe allan yn siarad gyda reidwyr ac yn hybu'r fenter sy'n cynnig gweithdai am ddim yng Ngogledd Cymru. Mae nifer o ddyddiau ymgysylltu BikeSafe wedi eu trefnu ar gyfer misoedd yr haf gan gynnwys ymweliadau â Phonderosa, Betws-y-Coed, Corwen a Llangollen. Gall defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol hefyd ddilyn yr ymgyrch drwy'r hashnod #OpDarwen a #RideSafely. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i blismona ffyrdd blaenoriaeth yn ystod yr ymgyrch i leihau'r nifer sy'n cael eu hanafu ar feic modur.

Mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, cafodd 145 o gyflawnwyr eu harestio yn 2016/17 ac fe gafodd 322 o achosion o ddelweddau anweddus o blant eu canfod (sy'n cynrychioli cynnydd o 60.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

Mewnol – mae staff o'r Tîm Onyx nawr wedi darparu hyfforddiant i'r mwyafrif o Dimau Cymdogaeth Mwy Diogel yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r Tîm Onyx yn parhau i weithio gyda a chefnogi nifer o blant dan fygythiad o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar draws Gogledd Cymru.

Allanol – Mae gwaith ataliol cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn parhau ar draws Gogledd Cymru gyda'r rownd gyntaf o fewnbwn ymwybyddiaeth wedi'i gyflwyno i yrwyr tacsi o fewn Sir Wrecsam. Mae Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Swyddogion Cyswllt Ysgolion ac aelodau o'r Tîm Trosedd Seiber hefyd wedi bod yn darparu mewnbwn i blant ysgol a'u rhieni. Diben y mewnbwn yw darparu cyngor diogelwch ar lein ymarferol i blant a rhieni. Mae peilot ar y gweill yng Nghonwy gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy, Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd yn cydweithio i amddiffyn plant rhag cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Bydd grŵp o ferched ifanc yn derbyn cefnogaeth ac addysg ar nifer o themâu allweddol i leihau'r tebygolrwydd ohonynt yn ddioddefwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

**Cam-drin domestig:**

Mae achosion Cam-drin Domestig hyd at 31/3/2017 a gofnodwyd fel 'troseddau' wedi cynyddu ers cyfanswm y llynedd o 4,812 i gyfanswm presennol o 5,751 (19.5% o gynnydd) tra bod yr union nifer o arestiadau cysylltiedig â throsedd wedi lleihau ychydig ers cyfanswm y llynedd o 2,464 i gyfanswm o 2,392 ar gyfer y flwyddyn bresennol (2.9% o ostyngiad). Nid yw ymchwil cychwynnol wedi dangos unrhyw resymau gweithredol amlwg, ac mae hyn yn destun dadansoddi pellach gan Heddlu Gogledd Cymru a'r OPCC.

Ers dechrau Chwefror 2017 mae 20 Rhybudd Diogelu Rhag Trais Domestig wedi eu hawdurdodi gan Uwch Arolygydd.

Cafodd 19 DVPN eu trosi'n llwyddiannus i Orchymyn Diogelu Rhag Trais a gyflwynwyd yn y Llys.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adrodd bod y data diweddaraf ar gyfer Ionawr 2017 yn dangos bod ein cyfraddau euogfarnau ar gyfer Trais Domestig yn Llys y Goron yn 60%, a 78.3% yn Llys yr Ynadon. Mae'r ddau ffigwr hyn i lawr 20% a 0.8% yn ôl eu trefn ers y cyfnod diwethaf. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu hadolygu'n gyson gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru.

**Yr heddlu a throsedd yn eich ardal chi**

Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn rhoi gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i god post.

**Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol**

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb byr i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau yr wyf wedi eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

**Ariannol**

Cafodd cyllideb refeniw net Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2016/17 ei chymeradwyo gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 25 Ionawr 2016 am £141.067 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys cyllideb net o £0.741 miliwn ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ac £1.166 miliwn net ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Ar 31 Rhagfyr 2016, cyfanswm y rhagamcan hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £1.440 miliwn ac adroddwyd ar hyn i'r Panel Heddlu a Throsedd ar 13 Mawrth 2017.

Cafodd datganiadau o gyfrifon drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl eu harwyddo ar 30 Mehefin 2017, yn unol â deddfwriaeth, a chyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 13 Gorffennaf 2017. Mae'r cyfrifon yn dangos cyfanswm cyfraniad net o gronfeydd wrth gefn o £1.078miliwn. Mae hyn yn cynnwys symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eisoes o fewn y gyllideb ac eitemau cyfalaf, ac eithrio'r eitemau hyn roedd tanwariant refeniw net yn £1.621m Fodd bynnag, mae

hyn yn cynnwys rhyddhau rhywfaint o ddarpariaeth i refeniw, felly roedd y tanwariant gwaelodol (o'i gymharu â'r £1.440miliwn) mewn gwirionedd yn £1.159 miliwn. Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac adroddir i'r Panel Heddlu a Throsedd ar unrhyw newidiadau i'r canlyniad yn dilyn yr archwiliad.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2017/18 yn £143.217 miliwn, sy'n cynnwys £0.793 miliwn ar gyfer fy swyddfa i ac £1.262 miliwn (net) ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir. Byddaf yn cyflwyno adroddiad ar sefyllfa'r flwyddyn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

**Cyffuriau**

Mae fy marn ar Bolisi Cyffuriau presennol yn hysbys iawn a bydd aelodau'r Panel yn ymwybodol fy mod yn adfocad trin camddefnyddio cyffuriau fel mater iechyd yn hytrach na mater troseddol. Cynhaliais gynhadledd arbennig ar reoleiddio cyffuriau yn Wrecsam yn ddiweddar. Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan yr elusen Anyone's Child, rhwydwaith rhyngwladol o deuluoedd sy'n dweud bod eu bywydau wedi eu dinistrio gan gyfreithiau cyffuriau presennol ac maent nawr yn ymgyrchu i'w newid. Nod y digwyddiad wnaeth ddenu 70 o bobl oedd i hybu trafodaeth ynglŷn â beth fyddai dull newydd ar gyfer cyffuriau yn gallu ei olygu i deuluoedd a chymunedau Wrecsam. Dilynodd sesiwn cwestiwn ac ateb bywiog yn dilyn yr areithiau, gyda'r mwyafrif helaeth o'r gynulleidfa yn cefnogi'r syniad o reoleiddio cyffuriau.

Roedd y gynulleidfa hefyd yn cytuno y dylai adnoddau ganolbwyntio ar y nifer o bobl sy'n cael eu niweidio gan gyffuriau yn hytrach na'r nifer sy'n cymryd cyffuriau ac na ddylai pobl nad ydynt yn achosi unrhyw niwed i eraill gael eu herlyn. Rwy'n awyddus i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno rhaglen addysg i'r sawl y canfyddir gyda chyffuriau yn eu meddiant, fel dull arall o erlyn, yn debyg i'r rhaglen addysg a ddatblygwyd ym Mryste.

Cefais wybod yn ddiweddar bod dinas Geneva yn y Swistir wedi cyflwyno cyfleusterau chwistrellu diogel – a elwir yn SIFs – sy'n cynnig amgylchedd diogel a rheoledig i ddefnyddwyr lle gallant fynd i chwistrellu, snwffian neu ysmygu cyffuriau. Rwy'n credu mai SIFs, neu fel yr ydym yn eu galw yma, Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau Gwell, yw'r ffordd ymlaen yma. Does dim dwywaith y byddai problemau a brofwyd gan drigolion lleol o ganlyniad i'r defnydd o gyffuriau mewn trefi yng Ngogledd Cymru yn lleihau wrth gael cyfleuster o'r fath.

Byddent yn ei gwneud yn haws i'r defnyddiwr gymryd cyffuriau allan o olwg y cyhoedd felly'n cynyddu hyder ac yn lleihau ofn. Byddent hefyd yn delio gyda'r mater o sbwriel cyffuriau a gall yr holl offer gael ei daflu'n ddiogel yn y cyfleuster.

Rwyf hefyd wedi galw am beilotau pellach o Driniaeth a Gynorthwyir Gyda Heroin lle rhagnodir herion meddyginiaethol i ddefnyddwyr. Mae treialon a gynhaliwyd mewn tair ardal yn Lloegr yn 2009 wedi creu cryn argraff, gyda 75% o ostyngiad yn y defnydd o herion ar y stryd a throsedd a gyflawnwyd gan ddefnyddwyr yn dangos gostyngiad sylweddol.

Mae yna lawer o newid mewn polisi cyffuriau yn rhyngwladol ac rwy'n credu mai ond mater o amser cyn y bydd synnwyr cyffredin yn darbwyllo ac y bydd y DU yn dal i fyny ac y byddwn yn rhydd o gyfreithiau sydd wedi dyddio nad ydynt yn cadw ein cymunedau'n ddiogel.

Ym Mhortiwgal mae pobl a ganfyddir ym meddiant cyffuriau yn ymddangos gerbron comisiwn anghymhelliad sy'n penderfynu pa un a ydynt yn ddefnyddiwr problemus. Os nad ydynt, yna'r rhan fwyaf o'r amser ni fydd unrhyw gosb yn eu herbyn. Mae'r pump neu ddeg y cant o ddefnyddwyr a ystyrir yn broblemus yn cael eu hatgyfeirio i naill ai wasanaethau lleihau niwed neu driniaeth yn dibynnu ar ddymuniad y defnyddiwr i barhau i gymryd cyffuriau neu i wella.

Un ystadegyn brawychus sy'n dangos i mi fod y system hon yn gweithio yw mai ond pedwar o bobl fesul miliwn sy'n marw o ganlyniad i gymryd cyffuriau ym Mhortiwgal o'i gymharu â 48 fesul miliwn y flwyddyn yn y DU.

Rwy'n credu'n gryf y dylai llywodraeth y DU gael ei lobio ar gyfer newidiadau mewn polisi cyffuriau ond rwy'n pwysleisio nad yw dad-droseddu yn golygu cyfreithloni holl gyffuriau o dan holl amgylchiadau. Byddaf yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Cymru yn ystod y misoedd nesaf i edrych ar sut yr ydym yn trin pobl sy'n gaeth i gyffuriau a pha un a oes angen mabwysiadu dulliau newydd.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

Ers canol Chwefror rwyf wedi cwrdd â'r canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff o Heddlu Gogledd Cymru):

- Y Swyddfa Gartref ynglŷn ag Adolygu Dosbarthiad Grant Craidd
- Dusty Kennedy o YOT Cymru a 4 Rheolwr YOT Gogledd Cymru
- Myfyrwyr yng Ngholeg Llandrillo
- Y Pennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yng Ngholeg Llandrillo
- Cynrychiolwyr o Wasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy
- Nicola Palios ynglŷn â Pholisiau Gêm Bêl-droed
- Ifor Glyn o Gymorth Cyffuriau Cymru
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
- Cynrychiolwyr o Kaleidescope
- Peter Moorhouse ynglŷn ag Ymgynghoriad Defnyddwyr Gwasanaeth
- Neil Woods ynglŷn â Thrawsnewid Cyffuriau
- Mynychu Digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Menywod yn Wrecsam
- Athro Clifford Stott o Brifysgol Keele ynglŷn â Chydweithrediad Academaidd Plismona Keele
- Mark Isherwood AC
- Gareth Clubb, Prif Weithredwr, Plaid Cymru
- Cydlynwyr Caniad
- Sefydliad y Merched ym Mae Colwyn
- Henllys Rhuthun
- Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth Rheoli Dioddefwyr Cenedlaethol yng Nghymru
- Mynychwyr Dathlu Blwyddyn Newydd Bengali 1424
- Swyddog Cefnogi Gweithredol a Chyfarwyddwr Rhaglen o Raglen Trawsnewid Fforensig NPCC ynglŷn â Thrawsnewid Ffornesig
- Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Weithredwyr Gogledd Orllewin Lloegr ar gyfer cyfarfod diweddariad chwarterol
- Meibion Maelor
- Cymunedau Arc, Bae Colwyn
- HMIC Wendy Williams
- Comisiynydd y Gymraeg Meri Huws
- Stuart Davies o Supply Chains
- Walis George, Prif Weithredwr Grŵp Cynefin
- DCI Jason Devonport CEM Berwyn

- Wanjiku Ngotho-Mbugua Cyfarwyddwr Bawso
- Liz Saville-Roberts AS
- Lesley Singleton, Pennaeth Strategaeth a Phartneriaeth BIPBC
- Hannah Griffith ac Andy Jones ynglŷn â Phrosiect WISDOM y Gwasanaeth Prawf
- Andrew Bowden Prif Weithredwr Cartrefi Conwy
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
- Ruth Marks o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Rwyf hefyd wedi mynychu'r cyfarfodydd canlynol:

- Symposiwm Merched yn y Ddalfa
- 2 gyfarfod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
- System Cyfiawnder Troseddol APCC a Grŵp Sefydlog Dioddefwyr
- Cyfarfod Cyffredinol APCC
- Digwyddiad Dathlu Fforwm Defnyddwyr Gwasanaeth Gogledd Cymru
- Cyfiawnder mewn Diwrnod yng Ngorsaf Heddlu Wrecsam
- Cyfarfod Grŵp Sector Uwch (APCC a'r Swyddfa Gartref)
- Cyfarfod Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod
- Arsylwi cyflwyniadau myfyrwyr ail flwyddyn Gradd Sylfaen Plismona Coleg Llandrillo Cyfarfod Cyngor Tref Tywyn
- Cadeirio Digwyddiad Cyhoeddus 'Plentyn Unrhyw Un' yn Wrecsam
- Lansiad swyddogol Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol Comisiynwyr Iaith
- Seremoni Gwobrau yng Ngwesty'r Cinmel Manor
- Cyfarfod PACT
- Pwyllgor Archwilio
- Fy Mwrdd Gweithredol Strategol
- Rhoi mewnbwn i heddweision newydd sydd wedi eu recriwtio

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rwyf i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Maent yn cynnwys:

Y Gogledd yn Cael ei Thrin yn Eilradd Wrth i Gaerdydd Fachu Arian Troseddwyr Rhyw

Cadwch bobl ifanc allan o'r llys meddai pennaeth yr heddlu

Pennaeth yr Heddlu'n dweud y dylid erlyn pedoffiliaid ar-lein bob tro

Pennaeth yr Heddlu'n Profi Ffordd Portiwgal o Ddelio gyda Chyffuriau ar gyfer Rhaglen Deledu

Cau celloedd yr Heddlu am nad ydynt yn ddiogel ac yn costio mwy na gwesty 5 seren y Savoy

Pennaeth yr Heddlu yn awyddus i ddysgu gwers i atal troseddwyr trais yn y cartref

Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn mynd nôl i'r dref lle'r oedd yn blismon dros 30 mlynedd yn ôl

Pennaeth yr Heddlu yn Galw am Gymorth y Cyhoedd i Anrhydeddu Arwyr Tawel Ymladd Troseddu

Camerâu Teledu Cylch Cyfyng Symudol Newydd yn Rhoi Troseddwyr yn y Ffrâm

Pennaeth yr Heddlu'n creu hanes yn y frwydr yn erbyn caethwasiaeth fodern

Mi ddaliwn ni fwy o droseddwyr rhyw

Heddlu yn recriwtio'n lleol

Rwy'n falch bod camerâu corff yn achub bywydau dioddefwyr, meddai pennaeth yr heddlu

Bydd gorsaf heddlu newydd yn cadw swyddogion y rheng flaen yn y dref

Mam sy'n galaru yn cefnogi ystafell chwistrellu ar gyfer defnyddwyr cyffuriau yn Wrecsam

Zoe, y cyn-ddefnyddiwr cyffuriau yn cynnig gobaith

Daniel, 16 oed yn cael ei anrhydeddu am ei weithred garedig

Arwyr Cymunedol Amlwch yn Ennill Gwobr

Anrhydeddu Ruth am ei Gwaith Ymroddedig gydag Elusen i'r Digartref

Tanya yn cael ei anrhydeddu am ei gwaith diflino gyda phobl ddigartref

Pennaeth yr Heddlu yn canmol gwirfoddolwyr sy'n gwneud archwiliadau ar hap o'r ddalfa

Hannah Ddewr yn Helpu Dioddefwyr Ymosodiadau Rhywiol

Anrhydeddu GISDA am ei waith gyda phobl ifanc digartref

**Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Ann Griffith**

Gofynnodd y Panel i gael ei hysbysu am waith y Dirprwy Gomisiynydd. Mae wedi ymrwymo'n llwyr i'w rhaglen waith brysur iawn, fel y nodir isod:

- Ymweld ag Uned Gwrthlwgrwobrwyo Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu
- Mynychu'r Grŵp Cymru Gyfan yn Llandrindod
- Cadeirio Cyfarfod Rhanbarthol Rheoli Troseddwyr Integredig
- Gweld Heddweision newydd yn hyfforddi yn Nolgellau
- Mynychu Cyfarfod Rhanbarthol Caethwasiaeth Fodern Gwrth Gaethwasiaeth
- Mynychu Cynhadledd ar Blant mewn Gofal Preswyl a leolir allan o'r sir sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
- Mynychu cyfarfod Cymdeithas Menywod Heddlu Gogledd Cymru
- Mynychu cyfarfod dal i fyny yn yr Uned Amrywiaeth
- Ymweld ag Adran Gwirio yr Adran Safonau Proffesiynol
- Mynychu Cynhadledd Genedlaethol Gweithgor Dynladdiad Cyngor Prif Swyddogion yr Heddlu Cenedlaethol ar Farwolaeth Plentyn yn Llundain
- Mynychu cyfarfod Grŵp Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarthol
- Mynychu'r Gynhadledd Arweinyddiaeth Diogelu yng Nghaerdydd
- Mynychu Diwrnod Hyfforddiant Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru yn Llanrwst
- Mynychu cyfarfod ynglŷn â chriminaleiddio plant mewn gofal preswyl
- Digwyddiad ymgynghori 360 a drefnwyd gan Caniad i glywed am brofiadau Argyfwng Iechyd Meddwl tymor byr y sawl sydd wedi cael profiadau o'r fath
- Ymweld â'r Gynghrair Drylliau yn Rhuthun
- Mynychu Cynhadledd ar Blant mewn Gofal Preswyl sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
- Digwyddiad Amddiffyn Pobl Ddiamddiffyn Cenedlaethol HMIC
- Bwrdd IOM Cymru
- Cyfarfod gyda Hannah Griffith ynglŷn â IOM
- Cyfarfod Rhwydwaith Caethwasiaeth Fodern yn Birmingham

- Cyfarfod Cyffredinol APCC yn Birmingham
- Seremoni Gwobrau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Cyfarfod y Ford Gron ym Mhrifysgol Bangor
- Treial Ffug yn Ysgol Penbarras, Rhuthun
- Agor Digwyddiad Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru ym Mae Colwyn
- Ymweld â Chlwb Gymnasteg Ynys Môn
- Cyfarfod gyda Dirprwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru
- Cyflwyno araith yng nghyfarfod Cymorth i Fenywod Cymru ym Mae Colwyn
- Cyfarfod gyda Vicky Poole, Cyfarwyddwr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Mynychu cyfarfod Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru
- Cyfarfod gyda Dirprwy Brif Gwnstabl rhanbarthol, Bob Evans
- Cyfarfod gyda Vivienne Laing, Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant
- Rhoi cyflwyniad ar ei rôl i heddweision newydd

**Seremoni Gwobrau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mai yng Ngwesty'r Cinmel Manor, Abergele. Diben y gwobrau yw cydnabod pobl a grwpiau sy'n helpu'r heddlu i gadw eu cymdogaeth yn lle heddychlon a diogel i fyw a gweithio ynddi ac sy'n helpu i ailsefydlu troseddwyr.

Rwyf wedi gweld y gwaith a'r ymdrech a wneir gan rai aelodau o'r gymuned i helpu'r heddlu a gwneud Gogledd Cymru yn lle gwell, mwy diogel. Felly, roedd yn anrhydedd cyflwyno gwobr i bobl a grwpiau sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn eu hardal.

Cafodd y Wobr Pobl, gwobr a enwebir gan y cyhoedd ar gyfer unigolyn neu grŵp cymunedol sydd wedi gwneud cyfraniad mawr tuag at ddiogelwch cymunedol ac atal trosedd ei chyflwyno i Tanya Jones am ei gwaith gyda'r Tîm Ymyrraeth Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd yn Wrecsam. Mae ei gwaith wedi bod o fudd anferthol i gymuned y digartref yn y dref. Mae Tanya a'i thîm yn edrych allan am y digartref er mwyn sicrhau eu bod yn cael mynediad i'r gwasanaethau cefnogi maent eu hangen. Mae hi'n aml wedi mynd y filltir ychwanegol tra'n ymgymryd â'i rôl mewn sawl ffordd gwahanol. Mae Tanya yn gweithio'n ddiflino i dorri'r rhwystrau rhwng ei chleientiaid a chymunedau lleol er enghraifft drwy drefnu i gasglu nodwyddau, dyddiau glanhau a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu atebion tymor hir.

Roedd yna gyfanswm o 10 gwobr gan gynnwys Gwobr Cefnogwr Cymunedol, Gwobr Cefnogwr Dioddefwyr, Gwobr Adsefydlu, Gwobr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Gwobr Pobl Ifanc, Gwobr Cyflawniad Rhagorol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Gwobr Cefnogwr yr Iaith Gymraeg, Gwobr Ymyrraeth Cyffuriau a Gwobr Cefnogwr Atal Caethwasiaeth.

Enillwyd y Wobr Pobl Ifanc gan Daniel Roberts, myfyriwr Blwyddyn 11 o Ysgol Uwchradd Castell Alun yn yr Hôb, Wrecsam. Yr haf diwethaf achoswyd difrod troseddol i ardd gymunedol ei ysgol gan sawl sy'n cyflawni trosedd anhysbys. Yn dilyn yr ymosodiad, cysylltodd Daniel â staff yn yr ysgol a gofynnodd os gallai dreulio gwyliau'r haf gyda chymorth ei daid yn trwsio'r difrod a achoswyd.

Gellir gweld yr holl enillwyr ar fy ngwefan.

**Comisiynu**

Mae'r holl wasanaethau wedi eu comisiynu ar gyfer 2017-18 ac mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel o ran Comisiynu/Cydweithio Rhanbarthol. Yn ystod y chwarter hwn, ymgymerwyd â gwaith ar y Polisi Gwerth Cymdeithasol gyda'r bwriad o gyflawni gwerth cymdeithasol drwy ein gweithgareddau comisiynu a chaffael. Mae Stuart Davies yn ymgymryd â'r darn hwn o waith a bydd yn rhoi cyflwyniad i'r perwyl hwn i'r Panel yn ei gyfarfod ar 10 Awst.

O safbwynt gwasanaethau cam-drin domestig cytunwyd gan nifer bod yr hinsawdd ariannol presennol i sefydliadau ar draws Cymru a Lloegr yn dameidiog ac yn aml yn anodd i ddioddefwyr. I fynd i'r afael â'r materion hyn, bydd Adolygiad Amgylchedd Ariannu dan arweiniad y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn archwilio cynaliadwyedd yr hinsawdd ariannol bresennol ar gyfer gwasanaethau cefnogi dioddefwyr trais. Mae hwn yn cysylltu â Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod Llywodraeth Cymru gan fod y Strategaeth yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod arian yn gynaliadwy a bod gwasanaethau a gomisiynwyd yn cefnogi dioddefwyr yn effeithiol. Mae fy swyddfa yn cyfrannu at yr ymarfer cwmpasu hwn ar sail Cymru gyfan a Gogledd Cymru i sicrhau bod gwasanaethau'n cysylltu'n effeithiol i ddioddefwyr.

Mae'r OPCC yn aelod o Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraeth Cymru, a'i ddiben yw cefnogi darpariaeth Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cynllun Cyflawni Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy adolygu holl drefniadau ariannu a ffynonellau sy'n cefnogi gwasanaethau VAWDASV ac ymyrraeth ar draws Cymru ar hyn o bryd. Ymgymerir â hyn gyda'r bwriad i sicrhau bod ffrwd ariannu yn cael eu halinio'n well i gefnogi cynllunio a chomisiynu gwasanaeth ar sail tystiolaeth yn rhanbarthol gyda rhywfaint o gomisiynu gwasanaeth cenedlaethol ar sail tystiolaeth. Bydd y grŵp yn cwblhau ei waith erbyn diwedd 2017, gan ddarparu model ariannu cynaliadwy a argymhellir a chanllawiau statudol drafft i Grŵp Cynghori Cenedlaethol y VAWDASV, o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet Cymunedau a Phlant.

**Hyder a Moeseg**

Mae fy swyddfa'n cael ei chynrychioli ar Bwyllgor Safonau Hyder a Moeseg yr Heddlu. Diben y pwyllgor hwn yw adolygu gweithrediad yr heddlu o'r Cod Moeseg ac i ystyried ansawdd y gwasanaeth a materion hyder cyhoeddus mewn perthynas â Heddlu Gogledd Cymru.

Trwy fynychu'r pwyllgor gall fy swyddfa fonitro rheolaeth yr Heddlu o'r Cod Moeseg a'i driniaeth a datblygiad o faterion ansawdd gwasanaeth a hyder.

**Dioddefwyr**

Roedd y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr wedi derbyn 41,897 o atgyfeiriadau yn 2016/17 ac o'r atgyfeiriadau hynny, roedd 23,788 wedi eu cefnogi gydag 14,168 arall yn cael 'cynnig cefnogaeth bellach'.

O safbwynt cefnogaeth fanwl, roedd 1,368 o unigolion wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan y Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod y flwyddyn a oedd yn cynnwys 35 gwirfoddolwr, 412 ymweliad gan staff a gwirfoddolwyr a 2,782 o alwadau cefnogaeth ddilynol gan y tîm.

Mae'r Gweithiwr Achos Iechyd Meddwl a Lles a leolir yn y Ganolfan yn cefnogi 31 unigolyn ar hyn o bryd.

**Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol**

Yn unol â statud, mae'n ofynnol i mi gael cynllun yn ei le ar gyfer monitro cyfleusterau'r ddalfa a thriniaeth y sawl a gedwir yn y ddalfa yn annibynnol.

Yn y flwyddyn perfformiad diwethaf mae'r 22 o wirfoddolwyr annibynnol sy'n ymweld â'r ddalfa yng Ngogledd Cymru wedi cynnal 144 o ymweliadau dirybudd yn ystafelloedd y ddalfa yng Ngogledd Cymru ac wedi siarad gyda 325 o unigolion a gadwyd yn y ddalfa. Nod y cynllun yw sicrhau bod pobl a gedwir yn y ddalfa yn derbyn eu hawliau, hawliadau ac i wirio eu hiechyd a'u lles.

Cynhaliais ymarfer recriwtio ac rwyf wedi recriwtio 5 gwirfoddolwr arall sydd wedi ymuno â'r cynllun yn Ebrill 2017. Mae yna gyfyngiad ar benodiad ymwelwyr â'r ddalfa i sicrhau bod holl wirfoddolwyr yn annibynnol felly mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio bob ychydig o flynyddoedd.

Darperir hyfforddiant llawn a diweddaru i holl ymwelwyr â'r ddalfa, cynhaliwyd yr hyfforddiant diwethaf ar 16 Mai ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymwneud â'r ddalfa. Mae hwn yn sesiwn hyfforddiant pwrpasol a ddarperir gan Heddlu Gogledd Cymru.

**Diweddariad HMIC**

Yn Ebrill rhyddhaodd yr HMIC Asesiad Blynyddol yr Heddlu i Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y safon cyffredinol ar gyfer darparu gwasanaeth heddlu effeithiol, effeithlon a chyfreithlon yn dda. Roedd yr adroddiad yn nodi bod "yr heddlu yn dda am atal trosedd a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r heddlu yn deall y materion sy'n achosi'r pryder mwyaf i'r cyhoedd ac mae'n defnyddio amryw o ddulliau i fynd i'r afael â'r rhain."

Roedd safon yr heddlu yn dda yn yr arolygon effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, fodd bynnag nodwyd bod yr heddlu angen gwella cyfreithlondeb. Yn fy llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref yn rhoi sylw i'r adroddiad hwn, nodais nad oeddwn yn cytuno â'r radd a roddwyd. Teimlais fod yr heddlu wedi'i raddio'n annheg o ganlyniad i'r materion cadarnhaol eraill a nodwyd o fewn yr arolwg. Gellir gweld fy ymateb yn llawn yma.

Rwyn fodlon gyda chanlyniad cyffredinol canfyddiadau'r HMIC fodd bynnag, rwyf wedi mynegi fy mhryderon gyda HMI Wendy Williams a Syr Thomas Winsor am y galw a roddir gan bob arolwg ar yr heddlu. Mewn cyfarfod diweddar gyda Wendy Williams, roeddwn yn falch o glywed ein bod yn rhannu'r un diddordeb o ran amddiffyn y sawl sy'n agored i fygythiad, risg a niwed. Bydd HMIC yn parhau i arolygu Heddlu Gogledd Cymru gyda'r arolwg thematig nesaf yn canolbwyntio ar Onestrwydd Data Trosedd yn yr heddlu. Yn yr arolwg blaenorol, roedd Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio 94% gyda safonau cofnodi trosedd.

**Penderfyniadau**

Fy mwriad yw darparu crynodeb o'r holl benderfyniadau a wnaed gennyf a chrynodeb o'r rheswm pam y gwnaed y penderfyniad i'r Panel. Hyderaf y bydd hyn yn gymorth i'r Panel i gyflawni ei ddyletswydd o graffu ar fy mhenderfyniadau.

Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed o 24 Chwefror 2017 hyd at 20 Ebrill 2017.

| Dyddiad | Teitl a Dolenni i'r penderfyniad llawn | Crynodeb |
|---|---|---|
| 08.03.17 | ICVA | Parhau gyda ein haelodaeth o'r ICVA am flwyddyn arall. Mae'r ICVA yn sefydliad a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref a sefydlwyd i hybu a chefnogi darpariaeth effeithiol o ymweliadau â'r ddalfa cenedlaethol. |
| 18.03.17 | Cynghrair Lles Cŵn | Roedd Unedau Cŵn Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Sir Gaer wedi uno yn Ebrill 2016, roedd y ddau Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn meddwl felly ei bod yn hanfodol |

| | | |
|---|---|---|
| | | i Ogledd Cymru ymuno â Chynllun Lles Cŵn oedd yn bodoli eisoes yn Sir Gaer. |
| 28.03.17 | Adolygu'r Cynllun ICV | Roedd angen adolygu'r cynllun ICV i gymryd i ystyriaeth y cyfnod penodiad ymwelwyr â'r ddalfa, cau y Ddalfa yn Nolgellau a mynediad i'r sawl a gedwir yn y ddalfa. |
| 04.04.17 | Parhau Cyllid i'r Timau Troseddwyr Ifanc | Parhau i ddarparu cyllid i'r Timau Troseddwyr Ifanc, prosiect DIP a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol |
| 04.04.17 | Parhau Cyllid Ychwanegol Gwasanaeth Cynghori i Ddioddefwyr Camdriniaeth Rhywiol | Darparu cyllid ychwanegol i leihau'r rhestr aros cynyddol am wasanaeth cynghori i ddioddefwyr camdriniaeth rywiol. |
| 04.04.17 | Ymestyn contract darparwyr gwefan Zengetti | Ymestyn y contract gyda darparwyr y wefan, Zengetti am gyfnod o flwyddyn arall. |
| 04.04.17 | Canolfan Triniaeth Alcohol a Lles Wrecsam | Darparu cyllid i'r Ganolfan Triniaeth Alcohol a Lles yn Wrecsam. |
| 04.04.17 | Gweithwyr Achos Caethwasiaeth Fodern - Cymorth i Ddioddefwyr | Darparu cyllid o'r Grant Gwasanaethau Dioddefwyr i recriwtio Gweithiwr Achos Caethwasiaeth i weithio i'r Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr yn Llanelwy. |
| 11.04.17 | Grant Gwasanaethau Dioddefwyr | Dosbarthu arian Grant Gwasanaethau Dioddefwyr y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer 2017/18. |
| 11.04.17 | Prosiect Atal Digartrefedd Wrecsam | Darparu arian ar gyfer Prosiect Atal Digartrefedd Wrecsam a leolir yn ardal Wrecsam. Partneriaeth cydweithio rhwng CAIS a Shelter Cymru. |
| 11.04.17 | Plant a Effeithir gan Rieni yn y Carchar | Darparu cyfraniad ariannol i gefnogi plant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan garcharu. |
| 20.04.17 | Prosiect Arloesi Merched | Darparu cyfraniad ariannol i gefnogi'r Prosiect Llwybr Menywod. Mae'r prosiect hwn yn barhad o'r Prosiect gwreiddiol a ariannwyd yn flaenorol trwy'r cyllid trawsnewid. |

Mae mwy o wybodaeth ar fy ngwefan http://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Gwybodaeth/Sut-yr-ydym-yn-gwneud-penderfyniadau.aspx

**Gohebiaeth**

Ffigyrau gohebiaeth o 1 Chwefror 2017 i 1 Gorffennaf 2017 (ffigyrau isod ar gyfer 1 Mai - aros am ddiweddariad gan AJ):

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Adborth penodol am y gwasanaeth plismona | *79* |
| Adborth cyffredinol am y gwasanaeth plismona | 84 |
| Cwynion a atgyfeiriwyd i'r PSD | 9 |
| Materion Staff | 2 |
| Gohebiaeth Gyffredinol | 308 |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 10 Awst 2017 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Mr. Richard Jarvis<br>Prif Swyddog ac Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br>Mrs. Dawn Hughes<br>Swyddog Cefnogi ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **TESTUN:** | Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyhoeddi manylion costau gweinyddol, costau cyfieithu ag hawliadau am dreuliau a lwfansau aelodau unigol y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHaTh) fel sy'n ofynnol dan Gytundeb y Swyddfa Gartref ar gyfer 2016/17.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Er mwyn caniatáu craffu cyhoeddus o wariant y PHaTh, mae gofyniad tryloywder wedi cael ei atodi fel amod y taliad grant unigol ac mae'n rhaid i'r PHaTh gyhoeddi ar eu gwefan, manylion am eu holl wariant o leiaf.

2.1 Mae Cylch Gorchwyl y PHaTh eisoes yn gofyn i dreuliau a dalwyd i aelodau'r panel gael ei gyhoeddi yn flynyddol ac ar gael drwy wefannau'r Awdurdod Lletyol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), y PHaTh a gwefan Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

2.2 Mae manylion gwariant y PHaTh ar gyfer 2016/17 i'w gweld yn Atodiad 1 a manylion y treuliau a dalwyd i aelodau unigol o'r PHaTh ar gyfer 2016/17 i'w gweld yn Atodiad 2.

## 3. ARGYMHELLIAD/DEWIS

3.1 Bod costau gweinyddol y PHaTh, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel ar gyfer treuliau a lwfansau'n cael eu nodi a'u cyhoeddi yn ôl y gofyn.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu dyraniad grant o £70,055 i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer cynnal y Panel Heddlu a Throsedd i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a chyfrifoldebau, yn unol â Deddf Cyfrifoldeb Cymdeithasol a Diwygio'r Heddlu 2011.

4.2 Cyflwynwyd PHaTh i graffu ar weithredoedd a phenderfyniadau Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (CHaTh). Bydd y PHaTh yn darparu cefnogaeth a her i'r PCC wrth arfer eu swyddogaethau.

4.3 Caiff y grant ei ddyrannu o dan dri phennawd: Costau Gweinyddol, Threuliau Aelodau a Chostau Cyfieithu. Mae'r Awdurdod Lletyol yn gallu trosglwyddo arian rhwng y tri phennawd, ar yr amod nad yw cyfanswm swm y grant yn cael ei rhagori.

4.1 Cymeradwyodd y PHaTh Gynllun Lwfans diwygiedig ar 23 Ionawr 2017, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau'r panel fel a ganlyn:

- Taliadau i gael eu gwneud drwy ffi ddyddiol o £198 (£99 am hanner diwrnod), wedi'i chapio ar uchafswm sy'n cyfateb i 7 diwrnod llawn y flwyddyn.
- Mae gan Aelodau o'r PHaTh yr hawl i hawlio lwfansau teithio ar gyfer dyletswyddau a gymeradwywyd.

4.2 Mae'n ofynnol i'r PHaTh gyhoeddi manylion treuliau a dalwyd i'w aelodau panel yn flynyddol a bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru at y diben o dryloywder ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu.

## 5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

5.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid o £70,055 i'r Awdurdod Cynnal ar gyfer Panel Heddlu a Throsedd.

5.2 Mae mwy o wariant wedi bod yn 2016/17 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd bod mwy o lwyth gwaith gan Aelodau’r Panel a’r Swyddogion Cymorth oherwydd yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd; yr angen am gynnal proses recriwtio ar gyfer yr Aelodau Annibynnol Cyfetholedig; yr angen am gynnal Gwrandawiadau Cadarnhau; cwmpasu trefniadau er mwyn sefydlu Cymdeithas PHaTh; a delio â chwynion.

## 6. RISG

6.1 Dim.

## 7. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

7.1 Ceisio cael cymeradwyaeth i gyhoeddi costau gweinyddol y PHaTh, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel ar gyfer treuliau a lwfansau.

Atodiad 1

**Gwariant Grantiau Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer 2016/17**

| | **GWARIANT GWIRIONEDDOL** | **GRANT AR GAEL** |
|---|---|---|
| COSTAU GWEINYDDOL | 78,054.73 | 53,300 |
| COSTAU AELODAU | 12,484.70 | 11,040 |
| COSTAU CYFIEITHU | 6,303.22 | 5,715 |
| Cyfanswm | £96,842.65 | £70,055 |

**Lwfansau Aelodau ar gyfer 2015/16**

| Aelodau | Lwfans (gan gynnwys YG) | Treuliau | i | o |
|---|---|---|---|---|
| Pat Astbury | 1188.00 | 479.10 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng Brian Blakeley | 1188.00 | 208.20 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng. Glenys Diskin | 99.00 | 0 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng. Philip C. Evans | 1089.00 | 66.21 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng. Julie Fallon | 1386.00 | 242.19 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Matthew Forbes | 693.00 | 68.00 | 31/10/16 | 31/03/17 |
| Cyng. David Griffiths | 495.00 | 124.20 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng. William Hughes | 198.00 | 31.50 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng. Bernie McCann | 495.00 | 129.60 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng. Dilwyn Morgan | 693.00 | 207.00 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Cyng Neville Phillips | 990.00 | 340.03 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| Tim Rhodes | 198.00 | 35.10 | 01/04/16 | 31/10/16 |
| Cyng Gethin Williams | 99.00 | 71.10 | 01/04/16 | 31/03/17 |
| John Williams | 693.00 | 205.20 | 29/11/16 | 31/03/17 |
| **Cyfanswm** | 9504.00 | 2207.43 | | |